Torri ffiniau ac ysbrydoli

Gan eich bod yn awr wedi addo cefnogi'r ymgyrch Torrwch y Ffiniau, mae yna sawl cam y gallwch eu cymryd i ledaenu'r neges.

Rydym yn gwybod eich bod wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau y mae gormod o bobl ifanc yn eu hwynebu – ond rydym am fynnu bod gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, abledd a dosbarth cymdeithasol yn cael ei ddileu.

Mae angen mwy o hyfforddiant a chymorth arnom, a mwy o bwyslais ar gynllunio ysgol gyfan ac ar gael adnoddau i wneud hynny.

iop.org/LimitLess

Torrwch y Ffiniau

IOP Sefydliad Ffiseg

Dyma rai syniadau:

1. **Rhannwch wybodaeth am yr ymgyrch Torrwch y Ffiniau ag ysgolion yn eich rhwydweithiau ffurfiol neu anffurfiol:**

   Po fwyaf o ysgolion sy'n cefnogi maniffesto Torrwch y Ffiniau, yr anoddaf fydd hi i'r sawl sydd mewn grym anwybyddu'r maniffesto. Lledaenwch y neges i unrhyw ysgolion neu leoliadau blynyddoedd cynnar yr ydych yn gysylltiedig â nhw, fel bod gennym fwy o gefnogwyr i'r ymgyrch pan fyddwn yn mynnu newid.

2. **Dangoswch i bawb beth yr ydych yn ei wneud yng nghymuned eich ysgol ac yn lleol:**

   Mae baner ddigidol ar gyfer eich gwefan a'ch llythyr newyddion i rieni a gofalwyr i'w cael yn iop.org/educators. Ewch gam ymhellach a gwahoddwch eich swyddogion etholedig lleol a'ch papur newydd lleol i ddod i weld sut yr ydych yn byw'n unol â gwerthoedd cynhwysol. Mae templed ar gyfer datganiad i'r wasg i'w gael drwy ddilyn y ddolen gyswllt uchod.

3. **Arddangoswch y poster amgaeëdig ar gyfer yr ystafell staff yn yr ysgol:**

   Mae'n drosolwg gwych o'r holl bobl y mae angen eu cefnogaeth ar gyfer unrhyw ymgyrch i chwalu'r rhwystrau y mae gormod o bobl ifanc yn eu hwynebu.

4. **Gadewch i ni eich helpu i rannu gwybodaeth:**

   Cofiwch drydar @IOPTeaching a defnyddio'r hashnod #IOPLimitLess i ddangos y gwaith sy'n digwydd yn eich ysgol, a lluniau o'r bathodyn pin amgaeëdig ar waith. Gallwch hefyd anfon ebost i campaigns@iop.org – po fwyaf o astudiaethau achos sydd gennym ac enghreifftiau o effaith newid ar lefel ysgol gyfan, y mwyaf o wybodaeth y gallwn ei chyflwyno i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau mewn llywodraeth, er mwyn dadlau dros gael mwy o adnoddau a chymorth ar gyfer eich gwaith.

5. **Cofiwch fyw'n unol â gwerthoedd Torrwch y Ffiniau mewn unrhyw ryngweithio sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth:**

   Mae adnoddau ar gael i gymell sgyrsiau'n ymwneud ag addysg bersonol, addysg emosiynol ac addysg am lesiant, yn ogystal ag adnoddau defnyddiol i hybu addysgu cynhwysol. Ewch i iop.org/InclusiveResources i gael syniadau am wersi, cynghorion a chymorth i addysgwyr.

Rhowch wybod i ni sut hwyl yr ydych yn ei chael arni!